

At: Aelodau'r Pwyllgor Craffu
Perfformiad

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Ionawr 2025

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD, DYDD IAU, 30 IONAWR 2025 am 10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2024 (copi ynghlwm).

10.05am – 10.10am

RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra ystyrir yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraff(au) 12 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf) yn cael ei datgelu.

5 CRIST Y GAIR (Tudalennau 17 - 22)

Ystyried adroddiad cyfrinachol ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Addysg a swyddogion GwE (copi ynghlwm) yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflwyno cynllun gweithredu ôl-arolwg yr ysgol a'r cynllun cefnogi ysgol ar y cyd.

10.10am – 11am

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

6 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM OSOD CYLLIDEB REFENIW 2025/26 (Tudalennau 23 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Archwilio (copi ynghlwm) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar setliad cyllid dros dro Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol ar gyfer 2025/26, ei oblygiadau ar gyfer gosod cyllideb gytbwys, ac sy'n gofyn am sylwadau aelodau ar faterion a amlinellir yn yr adroddiad.

11am – 11.30am

EGWYL 11.30am - 11.45am

7 SAFONAU A PHERFFORMIAD Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD 2023-24 (Tudalennau 33 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Prif Lyfrgellydd (copi ynghlwm) sy'n ceisio barn y Pwyllgor ar berfformiad Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor yn ystod 2023-24 mewn perthynas â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â'i gynnydd wrth ddatblygu llyfrgelloedd fel manau o les a gwytnwch unigol a chymunedol.

11.45am – 12.15pm

8 TREFNIADAU AR GYFER ADOLYGU CYFLWYNIAD Y GWASANAETH GWASTRAFF AC AILGYLCHU NEWYDD (Tudalennau 55 - 66)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) sy'n amlinellu'r trefniadau arfaethedig ar gyfer yr adolygiad ac yn gofyn i'r Pwyllgor sefydlu dull ffurfiol ar gyfer cynnal yr adolygiad a chael ei ganfyddiadau a'i gasgliadau maes o law.

12.15pm – 12.45pm

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 67 - 92)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

12.45pm – 1pm

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Hugh Carson Irving
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Gareth Sandilands (Is-
Gadeirydd)

Ellie Chard
Bobby Feeley
Martyn Hogg
Carol Holliday

Alan Hughes
Paul Keddie
Terry Mendies
Andrea Tomlin

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitem Agenda 5 yn unig)

Colette Owen
Neil Roberts

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 28 Tachwedd 2024 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd) ac Andrea Tomlin

HEFYD YN BRESENNOL

Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Gwyneth Ellis a'r Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Julie Matthews.

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes (GW); Pennaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HVE), Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni (RL), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad (EH), Cydlynnydd Craffu (RhE), Uwch Weinyddwr Pwyllgorau (Hwylusydd) (KJ), Gweinyddwr Pwyllgorau (RhTJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Dim.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Ellie Chard gysylltiad personol yn eitem busnes 6 'Y Cynllun Corfforaethol', yn ei chapasiti fel llywodraethwr wedi'i phenodi gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI) ar Gorff Llywodraethu Ysgol Tir Morfa, y cyfeirir ati o fewn Atodiad 1 yr adroddiad ar yr eitem busnes hon.

3 MATERION BRYG Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau bryg gyda'r Cadeirydd na'r Cydlynnydd Craffu cyn dechrau'r cyfarfod.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024. Felly:

Penderfynwyd: derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.

Materion yn codi: Tudalen 6. 'Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf': cadarnhawyd fod pedwar o aelodau etholedig wedi derbyn gwahoddiad diweddar, a roddwyd i holl gynghorwyr sir, i ymweld â chyfleuster Gofal Iechyd ac Uned Weithgynhyrchu Cefndy. Roedd y rhai a ymgymherodd ag un o'r ymweliadau, yn teimlo ei fod yn brofiad gwerthfawr a llawn gwybodaeth. Roeddent oll wedi'u plesio ac yn teimlo'n gadarnhaol am y gwaith a gyflawnir yno.

5 COFRESTR RISGIAU GORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol ynghyd â Phennaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau, a'r Rheolwr Mewnwelediad, Strategaeth a Chyflawni, adroddiad Adolygiad Risgiau Corfforaethol Medi 2024 (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Roedd yr adroddiad yn ddiweddariad ar yr Adolygiad mis Medi 2024 o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a Datganiad Parodrydd i Dderbyn Risg y Cyngor. Roedd hefyd yn hysbysu'r Pwyllgor o'r datganiad parodrydd i dderbyn risg y Cyngor o ran ariannu prosiectau a oedd yn ceisio adlewyrchu'r amgylchedd ariannol presennol. Felly, awgrymwyd y byddai'n briodol yn awr i ddiwygio parodrydd 'gofalus' y Cyngor i dderbyn risg o ran cyllid prosiectau i 'agored'.

Yr Uwch Dîm Arwain, ynghyd â'r Cabinet, oedd wedi datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Roedd yn cael ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet. Ar ôl adolygiadau mis Chwefror a mis Medi, cafodd y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhannwyd crynodeb o'r adolygiadau er gwybodaeth yn unig yn y pwyllgorau hyn yn eu cyfarfodydd ym mis Ionawr a mis Gorffennaf.

Roedd gan y Cyngor 13 o Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr ar hyn o bryd. Roedd crynodebau o'r casgliadau yn dilyn yr adolygiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod hwn i'w gweld ar ddechrau pob risg yn Atodiad 2. Ni chafodd unrhyw risgiau eu dad-ddwysau yn ystod yr adolygiad hwn. Fodd bynnag, cynigiwyd ychwanegu risg newydd, risg 53 (y risg na fydd buddion Rhaglenni Trawsnewid a Phrosiectau Mawr yn cael eu gwireddu yn llawn), i'r Gofrestr. Byddai'r ychwanegiad arfaethedig yn cynyddu cyfanswm y Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr i 14 risg.

O ran y parodrydd i dderbyn risg, eglurodd y swyddogion fod saith risg – 01, 21, 34, 45, 50, 51 a 52 (54%) – ar hyn o bryd yn anghyson â Datganiad Parodrydd i Dderbyn Risg y Cyngor (atodiad 3). Fodd bynnag, roedd hynny i'w ddisgwyl gan fod y gofrestr yn cynnwys risgiau mwyaf difrifol y Cyngor. Dywedodd Swyddogion ei fod yn amserol i'r Awdurdod adolygu'r Datganiad Parodrydd i Dderbyn Risg y Cyngor (atodiad 3), a adolygwyd ddiwethaf yn Ebrill 2024, gan fo dy datganiad angen adlewyrchu y parodrydd gan adlewyrchu bellach ar y ffactorau allanol allweddol (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasegol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol) sy'n dylanwadu ar y sefydliad ynghyd â deinameg a galw mewnol. Roedd trafodaeth ddechreuol wedi digwydd yn y Bwrdd Cyllideb a Thrawsnewid yng Ngorffennaf 2024 ac yn y Tîm Gweithredol Corfforaethol yn Hydref 2024 er mwyn darparu adborth ar briodoldeb y Datganiad Parodrydd i Dderbyn Risg fel ag yr oedd ar y pryd.

Cafodd y Pwyllgor hefyd wybod fod trafodaethau yn y Bwrdd Cyllideb a Thrawsnewid a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol wedi tynnu sylw penodol i baroddrwydd pwylllog y Cyngor i dderbyn risg mewn perthynas â phrosiectau ariannol. O ganlyniad, cynigiwyd ein bod yn symud y paroddrwydd i dderbyn risg hwn i "agored", er mwyn darparu fframwaith mwy priodol i gefnogi'r trawsnewidiad y sefydliad er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol ac ymatebion creadigol i ofynion ein preswylwyr.

Yn dilyn cyflwyniad cynhwysfawr gan swyddogion, trafododd yr aelodau'r canlynol ymhellach -

- Holodd y Pwyllgor am y risg newydd arfaethedig, risg 53; Prosiectau Trawsnewid - y llinell amser i raglenni trawsnewid neu brosiectau mawr ddechrau, cael eu cyflawni a gwireddu'r buddion, a pryd ddylent gael eu cyflwyno i Graffu? Eglurodd y Swyddogion y byddai unrhyw brosiectau cyfalaf angen cael eu trafod gyda'r Grŵp Craffu Cyfalaf a'r Bwrdd Cyllideb a Thrawsnewid, cyn y byddai'r achosion busnes yn cael eu datblygu'n ddigonol er mwyn ymgynghori gydag aelodau. Mae'r pwyllgor wedi cael ei ddynodi i Bwyllgor Craffu Perfformiad i ystyried prosiectau trawsnewid a ffurfiodd rhan o'r Ffrwd Waith 'Dylanwadu ar Alw a Digidol' y Rhaglen Drawsnewid gyda ffurflenni cynnig craffu wedi'i gwblhau ar gyfer eu hystyried gan gadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu wrth i ddatblygiad yr achos busnes wneud cynnydd ac wrth i brosiectau gael eu cymeradwyo a mynd i gyflawniad. Unwaith i brosiectau trawsnewid gael eu cymeradwyo ar gyfer cyflawni, ynghyd â gwireddu buddion ar ôl gweithredu, byddent yn cael eu monitro yn rheolaidd trwy gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol. Cynghorwyd y Swyddogion i gyflwyno'r ffurflenni cynnig craffu yn gynnar gan fod rhaglen waith y Pwyllgor eisoes bron yn llawn ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.
- A oedd y Cyngor wedi bod yn rhy hwyr yn canfod risg newydd 53 ac ychwanegu'r risgiau cysylltiedig â thrawsnewid i'r Gofrestr. A ddylai hyn wedi cael ei wneud yn gynt? Ymatebodd y swyddogion trwy egluro fod prosiectau wedi cael eu monitro ar gyfer risgiau am amser hir gan fod holl brosiectau â chofrestr risg yn gysylltiedig â nhw, gan gipio'r risgiau ar lefel prosiect. Fodd bynnag, bellach roedd safbwynt cyffredin y dylai risg newydd gael ei gynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol er mwyn amlygu'r risg a berwyd i'r Awdurdod yn gyffredinol, mewn perthynas â phrosiectau trawsnewid busnes a'r angen i'w cael yn iawn. Er bod cyflymder teithio o ran y prosiectau yn araf ar hyn o bryd, roedd yn cynyddu ac felly roedd yn bwysig bod mesurau lliniaru ac ystyriaeth ddigonol mewn lle i fonitro a rheoli'r risg yn gysylltiedig â nhw. Bydd gwybodaeth ac ystadegau cenedlaethol yn y dyfodol agos yn cael ei ddefnyddio wrth asesu a monitro'r risgiau sydd ynghlwm â phrosiectau trawsnewid gwasanaeth.
- Holodd Aelodau a oedd y Cyngor yn dibynnu ormod ar ystadegau Rheoliadau Adrodd am Ddigwyddiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) wrth benderfynu ar Risg 11 yn ymwneud â 'digwyddiad annisgwyl neu heb ei gynllunio'. A ddylai'r Cyngor, er enghraifft, yn defnyddio mwy o ddata a thystiolaeth a gynhyrchir gan y Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng? Cadarnhaodd swyddogion fod angen cryfhau hyn, ond yn rhanbarthol, defnyddiwyd data Cymru a DU wrth asesu'r risg benodol hon.

Roedd swyddogion i fod i gwrdd â chynrychiolwyr o Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol - Siroedd Gogledd Cymru, yn y dyfodol agos er mwyn trafod rheoli risg mewn perthynas â digwyddiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio.

- Gan nad oedd sgoriau risg wedi newid na gwella, holwyd a oedd gofyniad statudol i Graffu ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar sail flynyddol neu bob 6 mis, ac a oedd yr Awdurdod yn gallu cymharu ei hun yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru neu'r DU? Cadarnhaodd y Swyddogion nad oed yn ofynnol i'r Pwyllgor ystyried y gofrestr risg. Fodd bynnag, roedd canfod risgiau a'u rheoli yn biler allweddol o lywodraethu da ac wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth. Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl statudol i'w gyflawni i sicrhau bod gan y Cyngor fesurau risg priodol mewn lle, a rôl Craffu oedd archwilio perfformiad yr Awdurdod o ran rheoli'r holl risgiau a nodwyd. Felly cyngorwyd fod perfformiad o ran rheoli risgiau yn cael ei graffu yn rheolaidd gan fod y Gofrestr yn ddogfen hanfodol a oedd yn ffurfio rhan allweddol o asesu iechyd corfforaethol yr Awdurdod. Yr amcan o graffu ar y Gofrestr oedd rhoi sicrwydd i aelodau a swyddogion fod yr holl risgiau corfforaethol yn cael eu monitro yn effeithiol. Roedd gwneud y ddogfen yn fwy apelgar yn weledol yn anodd gan fod angen i'r holl ddogfennau fod yn hygyrch, er mwyn galluogi dinasyddion ddarllen neu dderbyn y wybodaeth. Cytunodd y swyddogion i archwilio'r dewis ar gyfer darparu data cymharol. Fodd bynnag, gall hyn fod yn anodd gan fod awdurdodau gwahanol â metrigau gwahanol o sgorio risgiau a dangosyddion perfformiad allweddol.
- Risg 34 yn ymwneud â 'gofal a reoleiddir annigonol' - holodd aelodau a oedd gan y Cyngor hyder fod rheolyddion digonol mewn lle i reoli'r risg hwn wrth fynd ymlaen? Roedd y risg hwn yn parhau i achosi pryder. Er ei fod yn cael ei reoli, roedd y galw am ofal yn parhau i gynyddu tra bod yr adnoddau a oedd eu hangen i ddarparu'r lefel ofynnol o ofal yn profi'n anodd ei gaffael. Roedd hyn yn broblem genedlaethol ac efallai bydd Craffu yn dymuno ei archwilio yn fanwl, gan gynnwys y costau o gyflogi staff asiantaeth, trwy wahodd cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y mater. O ran pryderon staffio a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw yng Ngofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion a gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor, rhoddwyd wybod i'r Aelodau bod y problemau recriwtio yn fater eang ac nid yn unigryw i Sir Ddinbych. Roedd yr holl adrannau a gwasanaethau yn gweithio ar y cyd ag AD i gael darlun manwl o'r sefyllfa ac roedd y mater i fod i gael ei drafod yn drylwyr yng nghyfarfod mis Mawrth yn ystod yr eitem Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu.
- Risg 50 - Ymrwymiad LIC i waredu elw o ofal Plant sy'n derbyn gofal, a all arwain at gyflenwad ansefydlog neu anaddas o leoliadau a'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r risg hwn. Hysbyswyd yr Aelodau bod recriwtio a chadw staff yn effeithiol mewn marchnad gystadleuol iawn yn allweddol. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd fod Pennaeth y Gwasanaethau Plant yn asesu'r mater yn drylwyr ac yn astudio'r holl wybodaeth pan ddaw ar gael. Roedd yn anodd darparu atebion diffiniol ar hyn o bryd gan fod y mater yn newid a datblygu'n barhaus. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf ar gael yn dynodi bod Llywodraethau'r DU a Chymru yn ystyried oedi gweithrediad y ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud â

gwaredu elw o'r sector hwn hyd at 2030. Felly gall Aelodau ddymuno ystyried cynnwys y risg fel testun ar gyfer ei gynnwys ar raglen waith Craffu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, trwy gwblhau ffurflen cynnig craffu.

Ar ddiwedd y drafodaeth drylwyr:

PENDERFYNWYD: yn amodol ar yr uchod a darparu'r wybodaeth ofynnol -

- (i) ar ôl ystyried a thrafod y diwygiadau a awgrymwyd i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol fel ag yr oedd ym Medi 2024, cadarnhau'r diwygiadau a wnaed gan gynnwys cynnwys risg newydd 53 fel y manylir yn Atodiad 4 yr adroddiad;***
- (ii) gan ystyried disgrifiadau a dosbarthiadau statws a'r parodrwydd am risg yn Atodiad 3, ynghyd â'r atebion a ddarparwyd i'r cwestiynau a godwyd yn ystod y cyfarfod, cadarnhau priodoldeb y risg a nodwyd gan y perchnogion ac effeithiolrwydd y rheolyddion risg a roddwyd mewn lle; a***
- (iii) gan gydnabod yr amgylchedd ariannol presennol y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu ynddynt, ac wrth ystyried rhesymeg y Bwrdd Cyllideb a Thrawsnewid a'r Tîm Gweithredol Corfforaethol o ran addasu Parodrwydd yr Awdurdod i dderbyn Risg o ran prosiectau ariannol, cefnogi'r argymhelliad i ddiwygio'r categori parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer prosiectau ariannol o 'gofalus' i 'agored'.***

6 CYNLLUN CORFFORAETHOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol a Phennaeth y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau a'r Swyddog Cynllunio a Pherfformiad y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Cynllun Corfforaethol: Ebrill i Fedi 2024 (dosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Gynllun Corfforaethol rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024, gan gynnwys amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r saith maes llywodraethu (cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, rheoli perfformiad, rheoli risg, cynllunio'r gweithlu, asedau, a chaffael). Roedd adrodd yn rheolaidd ar berfformiad yn rhan werthoedd ac egwyddorion y Cyngor. Roedd yn ofyniad monitro hanfodol o fethodoleg rheoli perfformiad y Cyngor, a'n dyletswyddau statudol. Er gwaethaf yr hinsawdd ariannol heriol presennol yr oedd y llywodraeth leol yn gweithredu, roedd perfformiad rhagorol mewn rhai meysydd gwasanaeth, a dylid llongyfarch y staff ar y cyflawniadau hyn mewn amgylchiadau heriol iawn. Wrth gwrs, roedd meysydd eraill angen gwella.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu cynnydd yn erbyn amcanion perfformiad yr Awdurdod. Roedd y rhain yn cynnwys Cynllun Corfforaethol / Amcanion Cydraddoldeb Strategol (oedd hefyd yn ffurfio Amcanion Lles y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a'r saith maes llywodraethu (fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn nodi dangosyddion neu weithgareddau yn ymwneud ag Amcanion Cydraddoldeb neu'n cyfrannu at Y Gymraeg a Diwylliant. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys astudiaethau achos i roi enghreifftiau o waith da. Roedd y Tîm Cynllunio Strategol yn parhau i geisio unrhyw gyfleoedd pellach i wella'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ac Adroddiadau Diweddariad ar Berfformiad.

Pwysleisiodd y swyddogion nad oedd yn bosibl amlygu'r holl bwyntiau o ddi-ddordeb a oedd wedi'u cynnwys o fewn Atodiad 1. Fodd bynnag, roedd rhai pwyntiau a meysydd cadarnhaol a oedd wedi dangos gwelliant yn ystod Ebrill i Fedi 2024 yn cynnwys:

- Lleihau dibyniaeth ar lety Gwely a Brechwast i letya teuluoedd digartref; ac
- Yn ôl Arolwg Boddhad Tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol 2024 Llywodraeth Cymru, Sir Ddinbych oedd y Cyngor a berfformiodd orau yng Nghymru o'r rhai oedd â stoc tai, o ran boddhad cyffredinol tenantiaid gyda Thai Sir Ddinbych.

Nododd swyddogion fod tri cham gwella wedi cael eu nodi yn dilyn trafodaethau gyda gwasanaethau am berfformiad presennol. Roedd y ddau gyntaf yn arddangos y cydadwaith rhwng adnoddau, perfformiad a risg. Sef:

- perfformiad mewn perthynas â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi'u difrodi a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (CAT1 - Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen), a oedd heb gyrraedd y targed amser o 95% ers rhai blynyddoedd. Roedd y gwasanaeth yn parhau i'w chael yn anodd bodloni gofynion yr ased o fewn yr adnoddau cyllidebol a staffio cyfyngedig ar gael. Roedd angen trafodaeth gadarn am y rhagolygon o wella a beth oedd perfformiad gwael parhaus yn debygol o'i olygu o ystyried effeithiau cynyddol peryglon llifogydd, tirlithriadau a gwres ar gyflwr ffyrdd a chysylltedd cymunedau.
- Yn gysylltiedig â champau gwella'r cyfnod diwethaf i gadw ymrwymadau a disgwyliadau perfformiad ein Cynllun Corfforaethol o dan adolygiad parhaus yn y dyfodol, fe ddylai Adolygiad Cyfran y Cynllun Corfforaethol ystyried effaith lleihau capasiti a phrosiectau sydd wedi dod i ben megis Llwybrau, a sut y bydd y rhain yn effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu'r Cynllun Corfforaethol a'r canlyniadau.
- Yr angen i gyhoeddi manylion y rhwydwaith ymgysylltu o bobl a grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig ar ein gwefan.

Trafododd yr Aelodau'r materion canlynol ymhellach -

- Codwyd pryderon nad oedd perfformiad Cyngor mewn perthynas â rhai dangosyddion yn gwella, neu'n waeth na'r cyfnodau adroddiadau blaenorol. Beth oedd y risgiau a chanlyniadau posibl i'r Cyngor o beidio â diwallu'r trothwyon ar gyfer rhagoriaeth a darparu agweddau o'r Cynllun Corfforaethol? Eglurodd y swyddogion mai'r canlyniad oedd difrod i enw da'r Cyngor, ond yn bwysicach, yr effaith andwyol ar breswylwyr os byddai perfformiad yn parhau i ddirywio ac os na fyddai blaenoriaethau yn cael eu darparu. Pwysleisiodd fod y cynllun yn gynllun hirdymor a byddai'n cymryd amser i holl ddyheadau ddwyn ffrwyth. Roedd cyflawniad y Cynllun yn cael ei

fonitro yn rheolaidd. Roedd swyddogion yn deall teimladau a phryderon yr aelodau ar y mater. Fodd bynnag, fe wnaethant amlygu fod gwneud cymariaethau gyda'r cynlluniau blaenorol a gyflawnwyd gan weinyddiaethau blaenorol mor syml â hynny, gan na fyddent yn cymharu tebyg am ei debyg, gan fod cymaint o elfennau wedi newid. Roedd y cynllun yn ceisio gwella lles. Er bod perfformiad mewn rhai meysydd yn cael ei ystyried yn 'Flaenoriaeth ar gyfer Gwella', roedd meysydd perfformiad eraill yn dda. Hefyd eglurodd y swyddogion fod y Cyngor wedi gosod nodau a throthwyon uwch yn hytrach na rhai haws i'w cyflawni. Ychwanegwyd hefyd bod ffactorau allanol, yn debyg i'r rhai a wynebwyd gan fwyafrif yr awdurdodau lleol yn golygu bod cyflawni targedau yn fwy heriol.

- o dan flaenoriaeth 'Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd', roedd 'cyfanswm tunelledd allyriadau carbon' wedi cynyddu yn hytrach na lleihau yn y flwyddyn ddiwethaf, sut aethpwyd i'r afael â hyn, ac a fyddai gofynion y Ddeddf Gaffael newydd yn cael goblygiadau ar berfformiad yn erbyn y mesur hwn yn y dyfodol? Mae'r mesur penodol hwn yn seiliedig ar fethodoleg eithaf bras a osodwyd yn allanol, a gobeithiwn y bydd hyn yn dod yn fwy soffistigedig a dibynadwy mewn amser. Eglurodd swyddogion nad oedd disgwyl i'r Ddeddf Gaffael gael effaith sylweddol ar dargedau lleihau carbon. Yn ystod y misoedd diwethaf, roedd ffactorau megis gwaith amddiffyn llifogydd arfordirol wedi gwneud y targed Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd yn fwy anodd ei gyflawni ynghyd â thywydd gwael dros yr haf yn effeithiol ar effeithiolrwydd panel solar i gynhyrchu ynni. Fodd bynnag, roedd meysydd gwasanaeth penodol megis Fflyd a Goleuadau Stryd yn bodloni eu targedau. Roedd holl awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd yn cydweithio gyda'r bwriad o leihau allyriadau carbon trwy'r gadwyn gyflenwi. Roedd Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru yn enghraifft dda o sut oedd awdurdodau yn cydweithio gyda'r golwg o leihau allyriadau carbon wrth gaffael gwaith adeiladu. Byddai penodi Swyddog Datgarboneiddio i weithio fel rhan o'r Gwasanaeth Caffael hefyd yn allweddol i lwyddiant yn y maes hwn.
- Cadarnhaodd swyddogion y dylai defnyddio'r dull Tîm Sir Ddinbych, mewn amser, helpu i wella perfformiad mewn meysydd a oedd yn ei chael yn anodd ar hyn o bryd. Nid oedd yr un gwasanaeth na maes yn gweithredu ar eu pen eu hunain. Bydd cymhwyso dull cyfunol, gyda staff ar bob lefel yn cymryd perchnogaeth o berfformiad, yn helpu i gefnogi cyflawniad y Cynllun yn yr hirdymor. Roedd y rheolwyr yn gwerthfawrogi staff ar bob lefel ac yn cydnabod eu bod yn allweddol i lwyddiant.
- Cytunodd yr Aeloda Arweiniol a'r swyddogion gyda safbwyntiau'r aelodau ar yr angen i gael mwy o breswylwyr yn rhan o waith y Cyngor. Roedd nifer o weithgorau yn gweithio ar sut i ymgysylltu ac ymgynghori'n well gyda phreswylwyr ar gynigion amrywiol. Er bod enw da'r Cyngor wedi cael ei ddifrodi gan y problemau a wynebwyd wrth gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd, roedd gwaith da yn digwydd ar draws y Cyngor ac roedd angen i bobl fod yn fwy cadarnhaol yn hytrach na negyddol.
- O ran bylchau yn y data a amlygwyd, roeddent yn sgil nifer o ffactorau, megis disgwyl am ddata gan ffynonellau allanol a methu â derbyn data cyn dyddiadau cyhoeddi. Roedd ffynonellau allanol hefyd yn profi heriau, yn debyg i'r Cyngor ac nid oeddent yn gallu derbyn data fel yr oeddent yn flaenorol.

- Cadarnhawyd fod gwaith yn digwydd ar hyn o bryd ar sut i wella perfformiad mewn perthynas â chanran y ffyrdd a phalmentydd wedi difrodi a wnaed yn ddiogel, gyda ffocws penodol ar ansawdd y gwaith yn hytrach na tharged o ran amser.
- Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau ar sut i wneud y dogfennau yn haws i'w lywio a'u darllen, heb gyfaddawdu ar hygyrchedd i bawb.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:

Penderfynwyd: yn destun yr arsylwadau uchod, darparu'r wybodaeth ychwanegol a wnaed cais amdani, ac ystyried gwaith pellach ar fformat yr Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad, i gydnabod cynnydd y Cyngor hyd yn hyn i gyflawni ei Gynllun Corfforaethol 2022-27, fel y manylwyd yn Adroddiad Diweddariad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Ebrill i Fedi 2024 (Atodiad 1).

7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (dosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen waith.

Roedd pedair eitem wedi'u rhestr ar gyfer cyfarfod mis Ionawr. Roedd y rhain yn cynnwys adroddiad cynnydd ar Ysgol Crist y Gair a oedd wedi'i ohirio o'r rhaglen gyfarfod bresennol fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd y Cydlynnydd Craffu yn disgwyl cadarnhad o ran a fyddai'r Strategaeth Economaidd a Datblygu Busnes ar gael ar gyfer ei harchwilio yng nghyfarfod mis Ionawr. Os nad, byddai'n cael ei ohirio i gyfarfod mis Mawrth. Roedd tair eitem sefydlog ar gyfer mis Ionawr oni bai am y gohiriad posibl.

Cafodd yr Aelodau eu hysbysu, yn dilyn cyfarfod diweddar y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, nid wnaed unrhyw geisiadau craffu i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Fodd bynnag, bydd gofyn i'r Pwyllgor fod yn 'bwyllgor rhiant' er mwyn sefydlu'r grŵp tasg a gorffen yn ffurfiol, a fydd yn adolygu cyflwyniad y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd, a derbyn yr adroddiad. Bydd adroddiad i sefydlu'r grŵp tasg a gorffen yn ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn Ionawr 2025. Felly:

Penderfynwyd: yn destun cynnwys adroddiad ar drefniadau sefydlu ac adrodd ar gyfer 'Adolygiad Craffu o Gyflwyniad y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd' ar ei raglen waith ar gyfer cyfarfod mis Ionawr 2025, i gadarnhau rhaglen waith y Pwyllgor.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Dywedodd y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd wrth y Pwyllgor eu bod wedi mynychu cyfres o gyfarfodydd Her Gwasanaeth yn ystod mis Tachwedd. Roedd yr holl gyfarfodydd hyn wedi bod yn ddefnyddiol iawn gan roi dealltwriaeth dda iddynt o berfformiad pob gwasanaeth o ran darparu eu gwasanaethau bob dydd, eu cyfraniad i gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor, ynghyd â mewnwelediad gwerthfawr i bwysau cyllidebol yr oeddent yn ei wynebu ac effaith ganlyniadol ar ddarpariaeth gwasanaeth. Rhoddwyd mewnwelediad cynnar hefyd i brosiectau

trawsnewid Gwasanaeth posibl a oedd yn cael eu datblygu, gyda rhai a oedd yn debygol o gael eu cyflwyno i Graffu ar gyfer eu hystyried yn y dyfodol agos. Roedd y cyfarfod Her Gwasanaeth olaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr. Bydd nodiadau mwy manwl o'r cyfarfodydd ar gael yn dilyn diwedd y broses Her Gwasanaeth. Felly,

Penderfynwyd: derbyn y wybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 15 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod	30 Ionawr 2025
Aelod / Swyddog Arweiniol	Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio
Awdur yr adroddiad	Pennaeth Cyllid ac Archwilio
Teitl	Y wybodaeth ddiweddaraf am Bennu Cyllideb Refeniw 2025/26

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar setliad dros dro 2025/26 Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol a'r goblygiadau ar gyfer pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae diweddariadau ariannol tymor canolig rheolaidd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor trwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni ei rôl o graffu ar gynigion cyllidebol, fel a gytunwyd gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu yn gynharach yn y flwyddyn ariannol. Mae'n ofniad cyfreithiol i'r Cyngor bennu cyllideb fantoledig cyn dechrau pob blwyddyn ariannol a phennu lefel Treth y Cyngor sy'n deillio o hynny. Ar 18 Chwefror 2025 bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad i bennu cyllideb fantoledig a Threth y Cyngor ar gyfer 2025/26. Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ar 20 Chwefror 2025.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn darparu adborth i'r Cabinet cyn i gyllideb 2025/26 gael ei phennu.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Setliad Dros Dro 2025/26 Llywodraeth Leol

4.1.1 Cafodd y Cyngor wybod beth oedd y setliad dros dro ar gyfer 2025/26 ar 11 Rhagfyr 2024. Mae Cyllid Allanol Cyfun dros dro'r Cyngor, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'n cyfran ni o gronfa Ardrethi Annomestig Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 yn dod i £215.222 miliwn.

4.1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio tablau fel bod modd cymharu lefelau cyllid 2024/25 a 2025/26 ar draws cynghorau Cymru. Mae ffigwr 2024/25 wedi ei ddiwygio fymryn gan Lywodraeth Cymru ers ei gyhoeddi gyntaf. Mae cyllid 2025/26 y Cyngor yn cael ei gymharu gyda ffigwr newydd ar gyfer Cyllid Allanol Cyfun 2024/25, sef £205.729 miliwn. Cynnydd o £9.493 miliwn neu 4.6%.

4.1.3 Mae'n bwysig deall y manylion y tu ôl i'r ffigwr newydd, gan ei fod yn effeithio ar 2025/26. Yn dilyn cyllideb Llywodraeth y DU fis Hydref 2024, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol yng nghanol y flwyddyn i Lywodraeth Leol, sydd wedi ei grynhoi yn y tabl isod.

Addasiadau 2024/25 i'r Cyllid Allanol Cyfun	£miliwn
Cyflog Athrawon	0.619
Pensiynau Athrawon	2.069
Cyflog staff nad ydynt yn addysgu	1.799
Cyfanswm	4.487

Mae hyn wedi'i gyfuno â'r gyllideb sylfaenol, ond gan fod hyn yn symudiad diweddar mae wedi cynyddu'r cyllid yn 2025/26 dros y 4.6% a ddyfynnir. Mae gwir effaith y setliad dros dro yn gynydd o £14.427 miliwn neu 7% (cyllid 2025/26 y Cyngor o gymharu â Chyllid Allanol Cyfun gwreiddiol 2024/25 o £200.795 miliwn).

4.1.4 Mae cynnydd Sir Ddinbych yn cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru o 4.3% ac mae'n dilyn cynnydd yn nifer y disgyblion a data prydau ysgol am ddim a ddefnyddir yn y fformiwla i ddsbarthu cyllid. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gydnabod bod yna gynydd cysylltiedig yn y galw am wasanaethau o ganlyniad.

4.1.5 O fewn y ffigwr a gyhoeddwyd, mae'r llywodraeth wedi datgan y canlynol:

- Bod yr holl godiadau cyflog ar gyfer swyddi addysgu a swyddi nad ydynt yn rhai addysgu wedi eu cynnwys yn y setliad

- Bod cost galluogi awdurdodau i barhau i gwrdd â chostau ychwanegol cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal wedi'i chynnwys yn y setliad.

4.1.6 Cyfeiriodd Datganiad Hydref Llywodraeth y DU at newidiadau i gyfraddau a throthwyon cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 1 Ebrill 2025. Bydd y cynnydd yn y cyfraniadau yn effeithio ar gost gweithwyr y mae'r Cyngor yn eu cyflogi'n uniongyrchol yn ogystal â chael effaith anuniongyrchol yn sgil cynnydd yng nghostau cyflenwyr, yn enwedig cost gofal a gomisiynir gan ddarparwyr gofal. Mae'r cynnydd yng nghostau uniongyrchol cyfraniadau cyflogwyr yn sicr ac wedi'i gynnwys ym mhwysau'r Cyngor ar gyfer 2025/26. Bydd angen cynnwys amcangyfrif o'r costau anuniongyrchol hefyd. Mae yna ansicrwydd o hyd o ran cyllid ar gyfer y pwysau yma gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid yn ystod hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2025/26 yn dilyn asesiad o gost gweithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gwybod beth yw'r sefyllfa o ran cyllid i gwrdd â'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr tan ar ôl i ni bennu cyllideb 2025/26.

4.1.7 Disgwylir y setliad terfynol fis Mawrth. O ystyried ystod y cynnydd (ar draws y gwahanol gynghorau) mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn agored i ystyried darparu cyllid gwaelodol ychwanegol yn y gyllideb derfynol, a byddai hynny yn diogelu cynghorau sydd wedi derbyn cynnydd is yn y cyllid. Nid yw Llywodraeth Cymru'n gallu rhoi sicrwydd na fydd newidiadau eraill yn cael eu gwneud rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol, ond nid yw'n bwriadu gwneud newidiadau i'r dulliau na'r data sy'n tanategu dosbarthiad y setliad.

4.1.8 Nid yw'r setliad dros dro'n darparu unrhyw arwydd o'r setliadau yn y dyfodol, ond mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn disgwyl setliadau amlflwyddyn yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn ystod hanner cyntaf 2025. Mae'n gobeithio gallu darparu setliad dangosol ar gyfer mwy na blwyddyn i lywodraeth leol yn y dyfodol, a fydd yn helpu i gynllunio yn y tymor canolig.

4.1.9 Mae rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn cael eu rhwystro gan fiwrocratiaeth ddiangen. Mae rhaglen waith i leihau nifer y grantiau ar wahân a delir i awdurdodau lleol yn parhau i symud grantiau i'r setliad. O ganlyniad mae 'trosglwyddiadau i mewn' a 'throsglwyddiadau allan' wedi'u cynnwys yn y setliad drafft. Ni ddiogelir cyllid grant at ddiben neu fenter benodol, gydag

unrhyw grant a drosglwyddir i mewn i'r setliad yn cynnwys y cyfrifoldeb parhaus hwnnw dros ddarparu'r fenter honno. Mae grantiau digartrefedd wedi'u trosglwyddo i mewn, sy'n ymwneud â'r dull 'neb wedi'i adael allan' a'r grant atal digartrefedd dewisol.

4.1.10 Yn gryno, er bod y cynnydd yn y setliad yn uwch na'r dybiaeth gynllunio a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n gadarnhaol ac yn cael ei groesawu, nid yw'n datrys yr heriau ariannol a wynebwr gan y Cyngor wrth bennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26 – sydd yn dal i fod angen cyfuniad o arbedion a chynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Pennu Cyllideb 2025/26

4.2 Pwysau ar y gyllideb

4.2.1 Mae ein diweddariadau ariannol tymor canolig sy'n cael eu cyflwyno i'n pwyllgorau amrywiol yn ystod y flwyddyn wedi amlygu bod y galw am wasanaethau gan ein cymunedau yn cynyddu a bod cymhlethdod yr anghenion wedi dwysáu mewn meysydd fel addysg, gwasanaethau plant a gofal cymdeithasol i oedolion. Tra bod y brif gyfradd chwyddiant wedi lleihau, mae'n parhau i effeithio ar y Cyngor oherwydd costau cynyddol darparu gwasanaethau yn sgil pwysau cyflogau, gofal a gomisiynir, prisiau bwyd a thanwydd ac ati.

4.2.2 Mae'r pwysau presennol sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2025/26 yn dod i £21.325 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i 8% o gyllideb 2024/25 a'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r pwysau fod yn fwy nag £20 miliwn. Mae'r manylion wedi eu rhestru yn Atodiad 1. Mae gwaith yn parhau ar fireinio'r pwysau cyllidebol i'w cynnwys yn yr adroddiad terfynol ar bennu'r gyllideb, yn enwedig ar gyllideb gofal cymdeithasol i oedolion.

4.2.3 Mae'r rhan fwyaf o'r pwysau sy'n wynebu'r Cyngor y tu allan i'w reolaeth, er enghraifft, caiff chwyddiant cyflogau ei bennu'n genedlaethol, ac mae'n rhaid hefyd i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswyddau statudol i ddarparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar alw fel gofal cymdeithasol ac ati.

4.3 Pennu cyllideb fantoledig yn 2025/26

4.3.1 Mae'r amcangyfrif diweddaraf o'r gofyniad cyllidebol ychwanegol ar gyfer 2025/26 yn £21.325 miliwn. Mae hyn yn fwy na'r cynnydd yn y cyllid y bydd y Cyngor yn ei gael drwy setliad Llywodraeth Cymru. Byddai angen cynnydd o oddeutu 11% yn y setliad drafft er

mwyn ariannu'r pwysau hyn i gyd. Felly mae'r gwaith o bennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26 yn dal i ofyn am gyfuniad o arbedion a chynnydd yn Nhreth y Cyngor.

4.3.2 Fel sydd wedi'i adrodd yn flaenorol, y dull a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i bennu cyllidebau mantoledig dros y blynyddoedd nesaf yw'r angen i ganfod arbedion a buddsoddi mewn prosiectau trawsnewidiol. I gyflawni arbedion yn 2025/26 mae canran targed wedi'i gyhoeddi i bob gwasanaeth ac mae gwasanaethau wedi bod yn gweithio tuag at gyrraedd eu targed ochr yn ochr â chydbwysu'r effaith ar ddarpariaethau, y mae llawer ohonynt yn statudol. Cafodd arbedion arfaethedig o £4 miliwn eu cynnwys mewn adroddiad i'r Cyngor fis Tachwedd 2024, wedi'u datblygu'n drylwyr gan Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu arbedion pellach ar gyfer pennu cyllideb 2025/26, a bydd y rhain yn cael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor fis Chwefror 2025.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Fel y nodir yn yr adroddiad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cwblhawyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer pob cynnig arbedion mawr wrth bennu cyllideb 2024/25. Cafodd pob asesiad ei goladu a'i adolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Gwnaed hyn i amlygu unrhyw themâu a phatrymau sy'n dod i'r amlwg ac er mwyn rhoi diweddariadau rheolaidd ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o'r nodau lles. Byddai hyn hefyd yn dangos a oedd yr arbedion yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchoddedig penodol. Cafodd y rhain eu coladu i ffurfio Asesiad cyffredinol o Effaith ar Les ar yr holl fesurau sydd ynghlwm â gostyngiadau i'r gyllideb. Diweddarwyd hyn trwy gydol 2024/25.

7.2. Rhoddir proses debyg ar waith wrth bennu cyllideb 2025/26.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Phwyllgor Craffu Perfformiad, cafodd proses y gyllideb ei hystyried gan yr Uwch Dîm Arweiniol, yng nghyfarfodydd Briffio'r Cabinet, gan Arweinwyr Grŵp ac yng nghyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor, ynghyd â phob Cyngor arall yng Nghymru, wedi bod yn wynebu heriau ariannol digynsail. Nod Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, sydd wedi bod yn destun adroddiadau rheolaidd i wahanol bwyllgorau, yw sicrhau bod y Cyngor yn pennu cyllidebau mantoledig yn y dyfodol. Bydd nodi manylion a goblygiadau setliad dros dro Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad hwn o gymorth i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod ar gyfer pennu cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae'r broses gyllidebol ynddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o lunio cynigion ar gyfer y gyllideb, eu hasesu a chytuno arnynt mewn ffordd drefnus a phrydlon. Byddai peidio â chytuno ar y cynigion hyn heb gynnig cynigion posibl eraill yn golygu risg na fyddai cyllideb fantoledig ar gyfer 2024/25.

10.2 Bydd dadansoddiad manwl o'r risgiau a'r camau i leihau'r risgiau hynny yn cael ei ddarparu yn yr adroddiad terfynol ar y gyllideb i'r Cabinet fis Chwefror 2025.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.

11.2 Mae pwerau craffu mewn perthynas â'r materion hyn wedi'u nodi yn Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Atodiad 1

Pwysau ar y gyllideb 2025/26

Mae'r pwysau presennol sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb 2025/26 yn dod i £21.325 miliwn. Mae hyn yn cyfateb i 8% o gyllideb 2024/25 a'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r pwysau fod yn fwy nag £20 miliwn. Mae'r manylion i'w gweld isod:

Pwysau	£miliwn	Disgrifiad
Cyflogau	3.000	Amcangyfrif bod dyfarniad cyflog mis Ebrill 2025 staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgol yn 3.8% yn unol ag amcangyfrif twf cyflogau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer 2025/26.
Cynnydd yng nghyfraniadau YG cyflogwyr	2.733	Staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgol – a gyflogir yn uniongyrchol
Graddfeydd Cyflog	-1.760	Gweler y paragraff isod
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	4.165	Mae'r rhagolygon o gostau cynyddol a ddiweddarwyd fis Hydref 2024 yn cael eu diweddarau eto i adlewyrchu'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol a chyfraniadau YG cyflogwyr.
Gwasanaethau Plant	4.284	Rhagolwg yn seiliedig ar leoliadau presennol (Hydref 2024) ac amcangyfrifon ar gyfer cynnydd ar sail chwyddiant. Tybir na fydd lleoliadau preswyl ychwanegol.
Gwasanaethau Prifysrdd ac Amgylcheddol	1.667	Cynnydd yn y gyllideb ailgylchu a gwastraff fel y cytunwyd arno gan y Cabinet fis Hydref 2024, £1.067 miliwn. Cynnydd yng nghostau cynnal a chadw prifysrdd yn y gaeaf, £0.600 miliwn.
Ysgolion	5.586	Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer dyfarniadau cyflog staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu o 3.8%, YG cyflogwyr a chytundebau lefel gwasanaeth hamdden. Hefyd, mae'n cynnwys cyllid am 0.5% i gwrdd â'r diffyg yn nyfarniad cyflog mis Medi 2024.
Ysgolion – Demograffeg	-0.480	Adlewyrchu gostyngiad cyffredinol ym mis Medi 2024 yn nifer y disgyblion a ddefnyddir yn y fformiwla ariannu ysgolion.

Ardoll Tân	0.500	Caiff Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei ariannu gan ardoll gan chwe chyngor gogledd Cymru sy'n seiliedig ar eu poblogaeth. Caiff yr ardoll ei gosod gan yr Awdurdod Tân, nid y cynghorau, ac mae'n rhaid ei thalu. Amcangyfrifir y bydd yr ardoll yn cynyddu 7%.
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	0.500	Cafodd cyllid ar gyfer Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor ei drosglwyddo i'r setliad rai blynyddoedd yn ôl ac nid yw wedi cynyddu. Felly mae angen cyllid ar gyfer y costau ychwanegol yn sgil y cynnydd yn Nhreth y Cyngor.
Buddsoddi mewn blaenoriaethau	0.250	Effaith costau ad-dalu benthyciadau'r rhaglen gyfalaf a llog – mae'r pwysau hwn yn ymwneud yn benodol â'r Strategaeth Hinsawdd a Natur.
Arall	0.508	Mynegeio contractau corfforaethol a chostau
Trosglwyddiadau i mewn / allan	0.372	Cynnydd ar gyfer Neb wedi'i Adael Allan ac atal digartrefedd llai gostyngiadau ar gyfer y rhaglen rheoli risg arfordirol.
Cyfanswm Pwysau	21.325	

Pwysau Graddfeydd Cyflog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd i'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn sgil lefelau uchel o chwyddiant wedi effeithio ar strwythur cyflogau'r Cyngor. Mae'r graddfeydd wedi'u cywasgu ym mhen isaf y strwythur oherwydd bod rhai o bwyntiau'r golofn gyflogau wedi'u tynnu ac mae yna angen cynyddol i adolygu'r strwythur. Mae'r pwysau, er ei fod yn dal wedi'i gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, wedi'i wthio'n ôl i adlewyrchu'r ymrwymiad sydd wedi'i wneud gan y cyflogwyr cenedlaethol yn ystod y trafodaethau cyflog diweddar i ail-ddylunio'r colofnau cyflog cenedlaethol a'r amser y gall hynny gymryd. Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i adolygu ei strwythur cyflogau ond ni fyddai'n ymarferol cynnal yr adolygiad hwnnw tra bod newidiadau i'r golofn gyflogau genedlaethol yn yr arfaeth.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Mae'r cynnydd yng nghyfraniadau YG cyflogwyr o fis Ebrill 2025 wedi'i gynnwys fel pwysau cost ar wahân ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion ac o fewn y ffigwr ysgolion ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion. Fel yr eglurir yn yr adroddiad, mae gwaith yn parhau ar fireinio'r pwysau ariannol mewn perthynas â gofal cymdeithasol, sy'n cynnwys effaith y cynnydd mewn YG. Rhagwelir y bydd cyllid gan y llywodraethau i gwrdd â'r costau ond nid yw hynny wedi'i gadarnhau eto.

Mae gwaith yn parhau ar fireinio'r pwysau cyllidebol i'w cynnwys yn yr adroddiad gosod cyllideb terfynol, ac yn benodol o safnwynt y gyllideb gofal cymdeithasol oedolion.

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod	30 Ionawr 2025
Aelod/Swyddog Arweiniol	Cynghorydd Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth / Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau
Pennaeth Gwasanaeth	Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau
Awdur yr adroddiad	Deborah Owen, Prif Lyfrgellydd
Teitl	Safonau a Pherfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd 2023-24

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn erbyn Safonau Cenedlaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I ddarparu gwybodaeth ynghylch perfformiad y Cyngor yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-20 (wedi'i ymestyn i 21-24) a'r cynnydd a wnaed i ddatblygu llyfrgelloedd fel manau lles a chadernid unigol a chymunedol.

2.2 Dylid nod fod yr adroddiad hwn yn ymwneud â Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Ddinbych ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Ni ddisgwylir y bydd effaith y newidiadau arfaethedig ar berfformiad y gwasanaeth Llyfrgelloedd/Siop Un Alwad yn glir tan fis Mehefin 2024 lle bu lleihad mewn oriau agor.

2.3 Disgwylir y bydd Safonau Cenedlaethol Newydd yn cael eu sefydlu gyda chyhoeddiad 7fed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru sydd â dyddiad gweithredu arfaethedig o 1 Ebrill 2025.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar berfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ac ystyried gwneud cais am adroddiad ar gynnydd ym mis Ionawr 2026.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2023-06/addendum-to-the-sixth-framework-of-welsh-public-library-standards-wpls-for-2023-2024-and-2024-2025.pdf>

4.2. Mae'r Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 yn nodi dyletswyddau statudol yr awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus i "ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon" a'i gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru "i oruchwyllo a hyrwyddo'r gwelliant" i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Er mwyn rhyddhau'r cyfrifoldeb hwn mae Llywodraeth Cymru yn gweinyddu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i asesu darpariaeth a pherfformiad llyfrgelloedd ledled Cymru.

4.3. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol sy'n amlinellu ei berfformiad yn y flwyddyn ariannol flaenorol gydag Adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru (ADChLIC) yn ymateb drwy gyflwyno Adroddiad Asesu Blynyddol. Mae'r Adroddiad Asesu Blynyddol diweddaraf yn ymwneud â'r cyfnod 2023-24 a pherfformiad yn erbyn 6ed Fframwaith 2017-20 (wedi'i ymestyn hyd 2024), ac yn cynnwys 13 Hawl Craidd a 7 Dangosydd Ansawdd â thargedau penodol. Mae'r adroddiad llawn ynghlwm fel Atodiad A.

4.4. Mae Sir Ddinbych wedi diwallu 12 o'r 13 Hawl Craidd yn llawn ac wedi diwallu 1 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Sir Ddinbych yn

cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol. Gweler tudalen 2 o'r Adroddiad Asesu Blynyddol yn Atodiad A.

- 4.5. DA 4 Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles. Wedi'i fodloni'n llwyr. Mae'n cynnwys cefnogi cynllun Darllen yn Well, casgliadau iechyd a lles dynodedig a chyfeirio at wasanaethau iechyd a lles. Mae ein holl lyfrgelloedd yn cynnal Pwyntiau Siarad wythnosol sy'n rhoi'r cyfle i bobl gael sgwrs wyneb yn wyneb â Chyfeiriwr Cymunedol.
- 4.6. DA 6 Mae pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig. Wedi'i fodloni'n llwyr.
- 4.7. Digwyddiadau mewn llyfrgelloedd sy'n llawn wedi cynyddu i 25% ers 2022-23 ac mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif ar gyfer presenoldeb ar gyfer pob digwyddiad (DA6). Digwyddiadau yn cynnwys grwpiau darllen, Crefft a Sgwrs; Gwau a Sgwrsio; Paned a Sgwrs, Grwpiau Darllen Cymraeg a Saesneg, grwpiau crefft, digwyddiadau awduron, ymweliadau dosbarth a sesiynau Dechrau Da. Mae gan y gwasanaeth gynneg cadarn ar gyfer plant o dan 5 oed ac mae Dechrau Da yn arwain at 45% o gyfanswm mynychwyr i ddigwyddiadau. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithgareddau a gwasanaethau i gwsmeriaid gydag anghenion penodol er enghraifft darparu cardiau SIM i bobl sydd methu fforddio eu contract misol trwy'r cynllun Banc Data Cenedlaethol. Yn ystod misoedd y gaeaf mae llyfrgelloedd yn rhan o'r cynllun Croeso Cynnes gan gynnig te a choffi am ddim i breswylwyr. Mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych wedi gweithio gyda sefydliad lleol Making Sense Community Interest Organisation (CIO) ar brosiect blwch atgofion i bobl gyda dementia.
- 4.8. DA 7: Lleoliad pwyntiau gwasanaeth. Wedi'i fodloni'n llwyr.
- 4.9. DA 9: Deunydd darllen cyfredol a phriodol. Wedi'i fodloni'n llwyr.

Mae Sir Ddinbych yn cwrdd â'r targed cyfradd caffael ac yn y chwarterl uchaf o awdurdodau llyfrgelloedd Cymru ar gyfer y mesur hwn. Mae canran y gyllideb wedi'i dyrannu i adnoddau plant uwchben y canolrif. Cafodd 23,509 o eitemau eu caffael yn 23-24. Mae hyn yn cynnwys y teitlau unigol a oedd ar gael trwy danysgrifiadau i ddau safle lawrlwytho digidol, Borrowbox (eLyfrau, llyfrau sain a phapurau newydd) ac Overdrive (cylchgronau) - cyfanswm o 12,243 o deitlau. Cyfanswm y llyfrau 'go iawn' a'r llyfrau sain oedd 11,266.

4.10 DA 10: Adnoddau Cymraeg. Wedi'i fodloni'n llwyr.

Mae'r gwasanaeth yn rhagori ar y targed fesul pen ar wariant ar adnoddau iaith Gymraeg. Mae uwchben y canolrif fesul pen ar gyfer problemau o ran y Gymraeg sydd wedi codi o 14% ers 2022-23 (DA10). Roedd 71% o broblemau yn ymwneud ag adnoddau Cymraeg ar gyfer llyfrau plant.

4.11 DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau. Wedi'i fodloni'n rhannol.

Dydi Sir Ddinbych dal ddim yn cwrdd â'r targedau ar gyfer un ai cyfanswm staff yn llawn neu staff cymwys fesul pen. Dydi'r sir heb gwrdd â'r targedau ers i'r llyfrgelloedd a'r siopau un alwad gael eu huno. Mae'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd yn y gwasanaeth yn siopau un alwad, a'r rhan fwyaf o staff rheng flaen, goruchwyliol a rheolaethol yn treulio tua 50% o'u hamser ar eu rolau Gwasanaethau Cwsmeriaid felly dim ond 50% o'r lefel staffio sy'n cael ei adrodd fel darpariaeth llyfrgell. Eleni mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi aelod staff wedi'i enwebu i gyflawni'r hyfforddiant llyfrgell broffesiynol felly dylai hynny helpu Sir Ddinbych i gwrdd â'r targed ar gyfer staff cymwys.

4.12 DA 16 Oriau agor y pen, wedi'i fodloni'n llawn.

Mae'r gwasanaeth yn cwrdd â'r targed ar gyfer oriau agor fesul pen ac uwchben y canolrif ar gyfer y mesur hwn, er wrth symud ymlaen bydd yn cael ei effeithio gan y gostyngiad mewn oriau agor ym Mehefin 2024.

4.13 Roedd yn angenrheidiol hefyd i awdurdodau gyflwyno adroddiad naratif er mwyn dangos yr effaith y mae'r llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn, sylwadau ar gyfraniad y gwasanaeth tuag at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru, ac i fyfrio ynghylch cyfeiriad a chynlluniau'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn y dyfodol. Gweler yr adroddiad naratif ar gyfer Sir Ddinbych sydd ynghlwm fel Atodiad 1.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb statudol dros y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac mae ei wasanaethau'n cyfrannu at nifer o amcanion a themâu corfforaethol, yn cynnwys Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgarg; Sir Ddinbych sy'n dysgu ac

yn tyfu; Sir Ddinbych sydd wedi'i chysylltu'n well; Sir Ddinbych decach, diogel a mwy cyfartal; Sir Ddinbych â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau'n gysylltiedig â chynhyrchu'r adroddiad hwn.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Les?

7.1 Ni chynhaliwyd aseiad o effaith ar les gan mai adroddiad ar berfformiad er gwybodaeth yn unig yw hwn. Fodd bynnag mae'r 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgell yn dangos y cyfraniad amlwg sydd gan lyfrgelloedd i'w wneud tuag at wireddu saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Fe ystyriodd Craffu Perfformiad yn Ionawr 2024 berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer 2022-23. Aeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i gyfarfod Craffu Arbennig yn Ionawr 2024 ynghylch y toriadau arfaethedig i'r gyllideb. Cafodd Tasglu Llyfrgelloedd ei sefydlu gydag Aelod Cabinet a chynrychiolwyr o bob Grŵp Ardal Aelodau (MAG) i adolygu model y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Siop Un Alwad yn Sir Ddinbych gyda'i gyfarfod cyntaf yn Ebrill 2024.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Adroddiad ar berfformiad hanesyddol yw hwn ac nid oes iddo unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

10 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Gan mai adroddiad ar berfformiad hanesyddol yw hwn, nid oes unrhyw risgiau'n gysylltiedig â'r adroddiad.

11 Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2 Mae Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn pennu y gall y Pwyllgor Craffu “adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig”.

Adroddiad Asesu Blynyddol 2023-24

Sir Ddinbych

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Ddinbych, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
Perfformiad yn erbyn y safonau	2
Hawliau Craidd	2
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau.....	5
Mesuriadau effaith	5
Dangosyddion ansawdd a meincnodau	6
Dadansoddiad o berfformiad	8
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)	8
Mynediad a defnydd (DA 6-8).....	8
Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10).....	9
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16).....	9
Y cyd-destun strategol.....	9
Cyfeiriad at y dyfodol.....	10
Casgliad	10

Crynodeb gweithredol

Adroddodd Sir Ddinbych ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 7 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu, gan awgrymu bod Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gynnig cyrsiau perthnasol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda o ran niferoedd benthycwyr gweithredol, nifer yn mynychu digwyddiadau, benthyciadau llyfrau a darpariaeth yn y Gymraeg. Serch hynny, mae ymweliadau rhithwir wedi gostwng. Mae Sir Ddinbych yn bwriadu cynnal arolygon cwsmeriaid yn 2024 a fydd, gobeithio, yn helpu o ran darparu gwybodaeth bellach am ddefnydd cwsmeriaid o wasanaethau llyfrgell a'u disgwyliadau. Er bod gwerthfawrogiad o heriau toriadau cyllidebol, mae'r amser a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant staff yn bryder a'r gobaith yw y bydd hwn yn rhywbeth yr eir i'r afael ag ef yn rhan o'r strategaeth llyfrgelloedd newydd.

- Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu 26% o'u cymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae nifer y benthycwyr gweithredol yn cynyddu, ac mae Sir Ddinbych yn chwartzel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA8).
- Mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif ar gyfer benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth ac mae benthyciadau yn y Gymraeg wedi cynyddu 14% o'u cymharu â 2022-23 (DA10).
- Mae'r gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnal oriau agor hyd yma ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16).
- Mae Sir Ddinbych yn chwartzel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru o ran amser staff a ddyrannwyd i hyfforddiant (DA13).

Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Ddinbych ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn drwy hunanasesu. Darparodd y gwasanaeth sylwebaeth fanwl a chynorthwyol yn y ffurflen. Ar sail hyn, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol.

1. **Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
5. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn.
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
7. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngwrwd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
8. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
9. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

10. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
11. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
12. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisiau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd bod y gwasanaeth yn adrodd bod strategaeth 2019-22 wedi'i hystyngi, ond nid yw hyn wedi'i nodi yn y strategaeth ei hun nac ar y wefan. O ganlyniad, nid oes unrhyw fesurau llwyddiant dros gyfnod perthnasol o amser. Mae'r ffurflen yn nodi bod y gwasanaeth yn 'bwriadu cynhyrchu strategaeth newydd yn y gwanwyn 2024, pan fydd toriadau cyllidebol ac oriau agor newydd wedi'u rhoi ar waith'.
13. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 6 yn llawn ac 1 yn rhannol.

- DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**
- DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
Caffaeliadau am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
% y gyllideb deunyddiau a wariwyd ar adnoddau yn y Gymraeg, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant Pennaeth gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni fodlonwyd**
- DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

Mesuriadau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigurau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol yn ffurflenni 2022-23 a 2023-24¹. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

¹ Gwnaeth Sir Ddinbych ddarparu data, ond am fod hyn yn gysylltiedig ag arolygon a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2018 a mis Chwefror 2020 (h.y. cyn Covid), nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl cymhariaeth am nad oes modd cymharu'r ffigurau mewn modd ystyrlon â data mwy diweddar.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canol-rifol	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth				
b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	Dd/B	68%	94%	99%
e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	Dd/B	31%	89.5%	96%
DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu:	Dd/B	86%	98.5%	100%

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Ddinbych ddatganiad effaith a gyfeiriodd at werth y sesiynau Amser Rhigwm Dechrau Da a gyflwynwyd gan Dîm penodedig Dechrau Da. Mae sesiynau'n darparu cyfle i'r plant ifanc ddod yn aelodau o'r llyfrgell; meithrin cariad at ddarllen; a datblygu eu sgiliau lleferydd ac iaith. Mae mynychu'r sesiynau hefyd yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau a hyder cymdeithasol ac emosiynol plant. Mae rhieni sy'n mynychu yn mwynhau cymdeithasu gyda rhieni eraill, sy'n cefnogi eu lles. Dywedodd mam sydd wedi mynychu sesiynau Amser Rhigwm Dechrau Da gyda phob un o'i phedwar plentyn dros y deng mlynedd diwethaf: *Mae fy mhlant i gyd wrth eu bodd yn darllen a dod i'r llyfrgell diolch i'ch anogaeth chi... rwy' wir yn gwerthfawrogi'r drefn a'r cysylltiad cymdeithasol ynghyd â'r cyfle i adael y tŷ a gweld wyneb cyfeillgar. Nid dim ond y llyfrau sy'n bwysig!"*

Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Ddinbych ar gyfer 2023-24. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrifol	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd		Dd/B	17%	70%	90%
c) iechyd a lles		Dd/B	1%	66.5%	90%
d) pleserus, diogel a chynhwysol		Dd/B	90%	97%	100%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid					
a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau		Dd/B	56%	91.5%	97%
a) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda'		Dd/B	86%	98.5%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda'		Dd/B	47%	87%	94%
d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol		Dd/B	74%	98%	100%
e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau		Dd/B	8.0	9.4	9.7
DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr					
a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth	23	10/21	1	20	209
c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth	329	2/18	12	137	449
DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth					
	168	15/22	3	224.5	620
DA 8 Defnydd o'r llyfrgell					
b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth	354	17/21	158	743	7,851
c) benthycwyr gweithredol am bob pen o'r boblogaeth	164	2/22	57	123	233
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol					
b) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau i blant	20%	7/22	12%	17%	26%
c) % y gyllideb deunyddiau ar adnoddau electronig	9%	15/22	4%	15.5%	49%
DA 10 Benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth					
	1,246	3/22	161	631.5	2,725
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau²					
(v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr	4	Dd/B	0	15.5	358
b) oriau gwirfoddolwyr	644	Dd/B	0	671.5	20,176
DA 14 Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth	£13,982	7/22	£6,046	£12,023	£24,685
b) % ar staff	62%	=15/22	50%	67%	78%
% ar adnoddau gwybodaeth	9%	=13/22	5%	11%	22%
% ar gyfarpar ac adeiladau	5%	=7/22	1%	3%	27%
% ar gostau gweithredol eraill	23%	=6/22	0%	16.5%	34%

² *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar prif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed lechyd a lles (DA4) yn llawn ac mae llyfrgelloedd yn cynnig gwasanaeth Pwyntiau Siarad wythnosol, sy'n cael ei gynnal ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, lle mae Llywyr Cymunedol yn rhannu gwybodaeth am help a chyngor sydd ar gael mewn ardal. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth oddeutu'r canolrif ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 26% o'i gymharu â 2022-23 (DA5). Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn gweithio gyda Cwmpas i gynnig ystod o sesiynau galw heibio, gweithdai a chyrsiau sgiliau hanfodol. Er bod nifer y sesiynau cymorth anffurfiol wedi gostwng o'i gymharu â 2022-23, mae Sir Ddinbych yn parhau i fod yn chwarterl uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth. Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon cwsmeriaid yn 2022-23 na 2023-24, ond mae Sir Ddinbych yn bwriadu cynnal arolwg yn yr hydref 2024 pan fydd y toriadau cyllidebol a'r newidiadau i oriau agor wedi'u rhoi ar waith (DA1/2).

Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae cyfanswm y nifer sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi cynyddu 25% ers 2022-23 ac mae Sir Ddinbych bellach yn uwch na'r canolrif am bob pen o'r boblogaeth am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau. Ymhlith y digwyddiadau mae grwpiau darllen, Crefft a Sgwrs; Gweu a Sgwrs; Paned a Sgwrs; grwpiau darllen Cymraeg a Saesneg; grwpiau crefft; digwyddiadau awduron; ymweliadau â dosbarthiadau; ac Amser Rhigymau Dechrau Da. Mae gan y gwasanaeth gynnig cadarn ar gyfer plant o dan 5 oed ac mae sesiynau Amser Rhigymau'n cyfrif am 45% o'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gweithgareddau a gwasanaethau i gwsmeriaid ag anghenion penodol, er enghraifft, darparu cardiau SIM i bobl na allant fforddio talu eu hychwanegiadau misol drwy gynllun y Banc Data Cenedlaethol. Yn ystod misoedd y gaeaf roedd llyfrgelloedd yn rhan o'r cynllun Croeso Cynnes, ac yn cynnig te a choffi i drigolion. Bu Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn gweithio gyda sefydliad lleol, Making Sense CIC, ar brosiect blychau atgofion i bobl sy'n byw gyda dementia.

Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu 7% o'i gymharu â 2022-23 ac mae Sir Ddinbych yn chwarterl uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA8). Mae dros 70% o aelodau llyfrgell a adroddwyd yn fenthycwyr gweithredol. Mae benthyciadau llyfrau i oedolion wedi codi 12% a stoc plant 11%, ac mae'r ddau faes yn uwch na'r canolrif. Fodd bynnag, mae benthyciadau electronig wedi cynyddu 9%, er gwaethaf ganslo tanysgrifiad Pressreader y llyfrgell, ac mae'r gwasanaeth yn y chwarterl uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn. Er hynny, mae Sir Ddinbych hefyd yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer ymweliadau rhithwir, sydd wedi gostwng 44% o'u cymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod tanysgrifwyr cyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu rywfaint (2%).

Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-10)

Mae Sir Ddinbych yn bodloni'r targed ar gyfer y gyfradd gaffaeliadau ac mae yn chwartzel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA9). Mae canran y gyllideb a ddyrannwyd i adnoddau i blant yn uwch na'r canolrif, tra bod y gyfran a ddyrannwyd i adnoddau electronig yn is na'r canolrif. Mae'r gwasanaeth yn rhagori ar y targed ar gyfer gwariant am bob pen o'r boblogaeth ar adnoddau yn y Gymraeg. Mae'n uwch na'r canolrif am fenthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth sydd wedi cynyddu 14% ers 2022-23 (DA10). Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod 71% o fenthyciadau yn y Gymraeg yn llyfrau i blant. Yn ystod Sialens Ddarllen yr Haf, parodd y gwasanaeth llyfrgell â Hamdden Sir Ddinbych i redeg cynllun rhoi benthyg cyfarpar chwaraeon. Mae hefyd yn rhoi benthyg peli troed i'r cynllun Alive and Kicking.

Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 a 16)

Er bod cyfanswm nifer y staff yn dangos cynnydd o'i gymharu â 2022-23, nid yw Sir Ddinbych yn bodloni'r targedau o hyd ar gyfer naill ai gyfanswm y staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Mae ar y canolrif ar gyfer y cyntaf ac ychydig yn uwch na'r canolrif ar gyfer yr ail (DA13). Mae'n fwriad gostwng lefelau staffio ym mis Mehefin 2024, a fydd yn effeithio ar ffurflen y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn cynnwys un swydd rheolwr a oedd wedi'i llenwi dros dro ers i'r Prif Lyfrgellydd adael ym mis Tachwedd 2023. Mae Sir Ddinbych yn chwartzel gwaelod awdurdodau llyfrgell Cymru o ran amser staff a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant, sydd wedi bod yn gyfyngedig o ganlyniad i doriadau cyllidebol. Mae nifer fach o wirfoddolwyr, er y nodir bod toriadau cyllidebol wedi ei gwneud yn adeg anodd i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr. Mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif ar gyfer cyfanswm y gwariant am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae oriau agor yn parhau'n sefydlog, er bod y gwasanaeth yn rhagweld y bydd toriadau cyllidebol yn arwain at ostyngiad yn yr oriau agor yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA16).

Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Sir Ddinbych ystod o ffyrdd roedd yn cyfrannu at y blaenoriaethau hyn. Ymhlith y themâu hyn mae:

- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg** e.e. bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ym mhob llyfrgell, gan gynnig ystod eang o adnoddau print a digidol yn y Gymraeg, a chynnal grwpiau darllen a digwyddiadau awduron.
- **Dathlu amrywiaeth** e.e. datblygu a hyrwyddo'r Llinell Amser Hanes LHDTC+ ar gyfer Sir Ddinbych gan gynnwys cynnal digwyddiad arbennig yn Llyfrgell y Rhyl i hyrwyddo Mis Hanes LHDTC+.
- **Hyrwyddo gwell iechyd meddwl** e.e. amlygu'r casgliadau Darllen yn Well a chyfranogiad ym mentrau lleol Trefi sy'n Deall Dementia.
- **Mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol** e.e. cynnig croeso cynnes a gweithgareddau i helpu pobl a allai fod yn unig.

- **Darparu cymorth digidol** e.e. helpu pobl i ymgeisio am fathodynau glas, cynnig llechi a chyfrifiaduron Chromebook i'w benthyg, darparu cardiau SIM am ddim a phartneru i gynnig cyrsiau digidol mewn llyfrgelloedd.
- **Dod yn gadarnhaol yn ecolegol** e.e. cyflwyno fan drydan ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref.

Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Ddinbych yn nodi bod toriadau cyllidebol mawr wrth llesteirio cynnydd rhai prosiectau ac y bydd oriau llyfrgelloedd, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, yn newid o fis Mehefin 2024. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu cynnal arolwg defnyddwyr llawn yn yr hydref, gyda'r canlyniadau'n llywio Strategaeth Llyfrgelloedd newydd a fydd yn ei lle erbyn y gwanwyn 2025. Mae'r llyfrgell yn ymrwymedig i gefnogi themâu Cynllun Corfforaethol y Cyngor drwy amrywiol weithgareddau, gan gynnwys: helpu pobl i fynd ar-lein; cynnal clybiau swyddi; darparu gofodau cyfarfod; hyrwyddo adnoddau Darllen yn Well; cefnogi mentrau lles; a darparu gofod diogel a chroesawgar ar gyfer unigolion. Mae'r gwasanaeth yn ymchwilio i ffyrdd o gyflwyno rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau i ymgysylltu o'r newydd â'r cyhoedd ac mae'n bwriadu ymgeisio am Grant Trawsnewid i adnewyddu un o'i lyfrgelloedd.

Casgliad

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu, gan awgrymu bod Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i gynnig cyrsiau perthnasol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda o ran niferoedd benthycwyr gweithredol, benthyciadau, nifer sy'n mynychu digwyddiadau a darpariaeth yn y Gymraeg. Er hynny, mae ymweliadau rhithwir hefyd wedi gostwng. Mae Sir Ddinbych yn bwriadu cynnal arolygon cwsmeriaid yn 2024 a fydd, gobeithio, yn helpu o ran darparu gwybodaeth bellach am ddefnydd cwsmeriaid o wasanaethau llyfrgell a'u disgwyliadau. Er bod gwerthfawrogiad o heriau toriadau cyllidebol, mae'r amser a ddyrannwyd ar gyfer hyfforddiant staff yn bryder a'r gobaith yw y bydd hwn yn rhywbeth yr eir i'r afael ag ef yn rhan o'r strategaeth llyfrgelloedd newydd.

Impact statement and additional strategic narrative

1. The impact which the library has had on an individual, or on a group of individuals, during the year. Describe the use made of the service, and the difference that use made to the individual or group concerned. Indicative length 300 words (permission obtained)

Denbighshire Libraries have a dedicated Bookstart Team who run regular bilingual rhyme times in libraries and also do outreach work to ante natal classes etc. The sessions, which also include Makaton signing, give every baby the opportunity to develop an early love of sharing books and reading, and to become members of their local library. There are many benefits of developing a reading habit early in young families. Sharing books with children helps to develop a child's social skills and confidence, it supports the development of speech and language, it helps children develop empathy and encourages them to recognise and talk about their feelings.

The Bookstart Rhyme Times also have an important role to play in the mental health of new parents, giving them the chance to socialise with other mums and dads, as demonstrated by this feedback.

Mum, J, has attended Bookstart Rhymetimes with all of her 4 children over the last 10 years.

'I started bringing C when she was 11 days old because I know how beneficial Bookstart is for babies - all of my children love reading and the library thanks to the encouragement you gave them. C loves singing, dancing and reading thanks to the Bookstart team. We practice our Bookstart songs at home and it's lovely to hear her singing in English and Welsh. Her favourite thing is to sit down with a book and enjoy reading a story thanks to her ffrindiau. Also, I would say that having had PND with 2 of the others I really value the routine and the social contact and getting out of the house to a friendly face. It's not all about the books!'

2. Please provide a narrative that demonstrates how the library service is contributing towards wider Welsh Government priorities and strategic goals (indicative length: 500 words).

Denbighshire Libraries have an important role to play in promoting the Welsh language, with Welsh speaking staff available in all libraries and a wide selection of Welsh language books, newspapers and magazines, available in print and also digitally. Some of our libraries hold Welsh language reading groups, such as Sgwrs a Sangria in Denbigh Library and Cylch Darllen Llyfrgell in Ruthin Library. Other libraries hold Paned a Sgwrs sessions, to help people practice their Welsh in an informal setting. We also held a number of Welsh language author events, including An Evening with Sian Rees at Denbigh Library. Bookstart Rhyme Times help to

introduce young families to Welsh from an early age, encouraging them to consider a Welsh medium education.

In our libraries we celebrate diversity. We were instrumental in developing and promoting the LGBT History Timeline for Denbighshire and in February we held a special event in Rhyl Library to celebrate LGBT+ History Month. There were displays and stalls from a variety of organisations, such as the Gay Outdoors Club, British Transport Police, Making Sense CIO and the Unique Transgender Network. Jenny-Anne Bishop OBE, from Unique Transgender Network gave an informative talk about the history of gender services in Wales and there was an entertaining performance about the Ladies of Llangollen through the eyes of their faithful friend and housekeeper, Mary Caryll.

In terms of promoting better mental health our libraries continue to highlight the Reading Well collections and we are also involved with the local Dementia Friendly Towns initiatives. We worked in partnership with local community interest organisation Making Sense on a project to create 5 new memory boxes, and run a series of Memory Cafes in our libraries. They also ran training sessions for care home staff, to show them how to use the memory boxes and make them aware of resources available in libraries.



During the winter months all our libraries offered a warm welcome, extending our usual offer to make free teas and coffees available to people visiting the library, and we introduced new social activities, such as Craft and Chat and Knit and Natter sessions, in a bid to help people who may be lonely or isolated.

Our libraries have continued to provide digital support to those who are excluded, whether this is supporting people to apply online for blue badges and bus passes, making tablets and chromebooks available for loan, and also giving out free sims to people who can't afford their monthly top up. We have also worked with Llandrillo College and Cwmpas to make digital courses available in our libraries.

Denbighshire County Council is committed to seeking to become a Net Carbon Zero and more Ecologically Positive Council by 2030, so in February 2023 the library service introduced a new electric powered van to support the delivery of the Home Library Service, and to reduce our carbon footprint. The Home Library Service delivers books and audiobooks to people who cannot make it to a library due to ill health, disability or caring responsibilities.



Rhyl Library have been developing a bee friendly garden and during the summer of 2023 they created a bug hotel, teaming up with Working Denbighshire, an employability service which supports Denbighshire residents who are at risk of poverty.



Future Direction

Please provide a short statement about the future direction and plans for the library service (indicative length 200 words).

This has been a difficult period for the library service, as major cuts to the budget were announced in October 2023 and this meant that a lot of projects were put on hold. We didn't run a library survey, but a consultation was held on the proposed changes to the library opening hours in October 2023 and over 4500 responses were received. Lots of positive comments regarding the library service were received, including the following examples—

'I use Prestatyn Library on most days for information, company, warmth, and it is a complete lifeline for me. Please don't reduce its opening hours'.

'Prestatyn Library is, and has been, a focal point in this town for many years. We find a helpful and empathetic staff and the services rendered are considerably more varied than just handling and lending books. I believe even more variety can be provided in the future. Just one recent example is the provision of warm surroundings and a hot drink during the power crisis.'

'The new hours will heavily impact the local community in a negative way. The libraries are a hub, they are an escape that people use to relax and find comfort. The staff are the most welcoming people. Denbighshire will become a colder, less welcoming place without all the libraries being able to help those in need. A tragic loss and appalling idea. This will affect the most vulnerable in our communities.'

'This was the first group I joined after Covid and isolation. My mental health has improved greatly since joining. The staff are all friendly and helpful. I am partially sighted and cannot use a computer so this my library is my lifeline.

As I come to the book club on Thursday that is the day I come in. I would be isolated and have no help.'

We plan to build on this and carry out a full user survey in the autumn, once our new opening hours, which were introduced on 1st June, have bedded in. We will then use the results of this survey to inform our new Library Strategy, which we aim to have in place by spring 2025.

The Library Service contributes to the Council's Corporate Plan, which runs until 2027, and this will be reflected in the Library Strategy. The library particularly supports the themes 'A Prosperous Denbighshire' and a 'A healthier and happier, caring Denbighshire', with activities such as helping people get online, supporting Working Denbighshire to hold job clubs in our libraries, providing a safe, welcoming space for individuals and community organisations to meet up, and continuing to promote the Reading Well resources. Talking Points also continue to run weekly in our libraries, a collaboration with the Red Cross, Denbighshire County Council and Betsi Cadwaladr University Health Board, which provides an opportunity for people to find health and support in their local area.

We will investigate ways we can continue to deliver a programme of activities and events to encourage children and adults to re-engage with their local library, looking to work more with partners as we operate on reduced staffing and opening hours.

We are also planning to apply for a Transformation Grant to refurbish one of our libraries, to make better use of the space and make it more relevant to the local community.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod	30 Ionawr 2025
Pennaeth Gwasanaeth	Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl
Awdur yr adroddiad	Rhian Evans, Cydlynnydd Craffu
Teitl	Trefniadau i Adolygu Cyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Newydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Mae'n amlinellu'r trefniadau arfaethedig i gynnal yr adolygiad ar y gwaith o gyflwyno'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad sefydlu proses yn ffurfiol i ymgymryd â'r gwaith o adolygu sut y cafodd y Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd ei gynllunio, ei weithredu a'i gyflwyno a derbyn canfyddiadau'r adolygiad maes o law.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn:

- 3.1. ystyried cynnwys yr adroddiad a'r cylch gorchwyl drafft i gynnal yr adolygiad (Atodiad 1).
- 3.2. cadarnhau'r trefniadau arfaethedig i gynnal yr adolygiad, fel y manylir ym mharagraffau 4.5 a 4.6 yn yr adroddiad; ac yn
- 3.3. cytuno i dderbyn y canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad maes o law.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Ar 3 Mehefin 2024, dechreuodd y Cyngor gyflwyno ei Wasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd. Cafodd y system newydd hon i gasglu ac ymdrin â gwastraff domestig ei rhoi ar waith ar draws y sir ar yr un pryd ac o ganlyniad, dyma oedd y newid mwyaf i wasanaeth gan y Cyngor ers ei sefydlu ym 1996.
- 4.2. O fewn yr ychydig wythnosau cyntaf, daeth i'r amlwg bod cryn nifer o gasgliadau gwastraff domestig yn cael eu methu neu'n hwyr yn aml, a oedd yn achosi rhwystredigaeth a dicter ymysg trigolion. Canlyniad hyn oedd bod aelodau etholedig a chanolfan alwadau'r Cyngor wedi'u boddi gan ymholiadau a chwynion. Am y rhesymau hyn, cyflwynodd Arweinydd y Cyngor ynghyd ag Aelod Etholedig yr Amgylchedd a Chludiant gais Craffu yn gofyn i bwyllgor craffu perthnasol y Cyngor edrych yn fanwl ar y problemau a gododd wrth gyflwyno'r gwasanaeth newydd, beth wnaeth eu hachosi ac effeithiolrwydd yr ymateb i liniaru'r effaith ar drigolion. Fe wnaeth nifer o drigolion hefyd gysylltu â'r Cyngor yn gofyn iddo edrych ar y broses o gyflwyno'r gwasanaeth newydd ac ar faterion yn ymwneud â pha mor hawdd ei ddefnyddio oedd y gwasanaeth i drigolion oedd ag anabledau a/neu nodweddion gwarchoddedig.
- 4.3. Ystyriodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu'r ceisiadau craffu i ddechrau yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2024 gan benderfynu bod y mater yn deilwng o gael ei archwilio'n fanwl. Cytunwyd y byddai'r Grŵp, yn ei gyfarfod ym mis Medi, yn llunio cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad. Yn y cyfamser, tra bu aelodau'r Grŵp hwnnw'n trafod gyda'u pleidiau gwleidyddol pa faterion neu agweddau ar y broses gyflwyno roeddent yn dymuno iddynt gael eu cynnwys yng nghylch gorchwyl yr adolygiad, dwedwyd wrth y swyddogion am gychwyn ymholiadau ar y math o gymorth allanol a allai fod ar gael i gefnogi adolygiad manwl, ynghyd â chostau cysylltiedig.
- 4.4. Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024, ystyriodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ddwy ddogfen cylch gorchwyl ddrafft. Roedd un wedi'i dwyn ynghyd gan y Cyngorydd Karen Edwards ar ran y Grŵp Annibynnol, a'r llall gan swyddogion, wedi'i llunio fel sail i drafod yn unig, i gynorthwyo'r aelodau i ffurfio cylch gorchwyl. Rhannwyd copiâu o'r sylwadau gan Grŵp Plaid Cymru (yr unig Grŵp nad oedd wedi'i gynrychioli ar y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion) ynglŷn â pha agweddau roeddent hwy'n

credu y dylent gael eu cynnwys yn yr adolygiad hefyd. Ar ôl ystyried yr holl ddogfennau, cyfarwyddwyd y swyddogion gan y Grŵp i gydweithio â'r Cynghorydd Karen Edwards i lunio fersiwn gyfun o'r ddau gylch gorchwyl a gyflwynwyd, a chynnwys pwyntiau arwyddocaol eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth yn y cyfarfod hwnnw. Ar ôl ei chwblhau, roedd dogfen ddiwygiedig y cylch gorchwyl i gael ei rhannu â'r holl gynghorwyr sir ac aelodau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor cyn cynnal gweithdy i holl aelodau'r Cyngor i drafod trefniadau i gynnal yr adolygiad.

4.5. Cynhaliwyd y gweithdy i holl aelodau'r Cyngor ar 19 Tachwedd ac yn ystod hwnnw, trafodwyd y cylch gorchwyl drafft a'r darpar drefniadau i gynnal yr adolygiad. Yn dilyn y drafodaeth honno, gwnaed ambell fân-ychwanegiad arall i ddogfen ddrafft y cylch gorchwyl, yn ymwneud â rheoli risg, lles ac asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Ar ôl y gweithdy i'r aelodau i gyd, fe wnaeth y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu, yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, ystyried yr adborth a gafwyd yn ystod y gweithdy, ynghyd â dogfen ddiwygiedig y cylch gorchwyl oedd yn cynnwys y newidiadau a awgrymwyd yn y gweithdy. Ar ddiwedd ei drafodaethau, cytunodd y Grŵp ar argymhell y dull canlynol i gynnal yr adolygiad; bod

- Grŵp Tasg a Gorffen (TaG) yn cael ei sefydlu er mwyn cynnal yr adolygiad.
- y Grŵp TaG yn cynnwys 12 aelod – gyda'r nod o sicrhau cynrychiolaeth ddaearyddol a gwleidyddol deg ar y Grŵp TaG, dylid gofyn i bob un o Grwpiau Ardal yr Aelodau benodi dau aelod nad ydynt yn Aelodau Cabinet ar hyn o bryd nac yn aelodau Cabinet o'r weinyddiaeth flaenorol i wasanaethu ar y Grŵp (mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer gweithgarwch craffu'n gwahardd aelodau Cabinet cyfredol rhag gwasanaethu yn unrhyw ymchwiliadau neu drafodaethau craffu. Fodd bynnag, gan y bydd yr adolygiad yn edrych ar benderfyniadau ynghlwm â chyflwyno'r gwasanaeth newydd a wnaed yn ystod y weinyddiaeth gyfredol a'r un flaenorol, mae'n debyg o edrych ar benderfyniadau'r ddwy weinyddiaeth, ac aelodau Cabinet cyfredol a blaenorol yn debygol o gael eu galw i roi tystiolaeth yn rhan o'r adolygiad. Gan hynny, pe bai unrhyw aelod o'r Grŵp TaG yn aelod o'r Cabinet blaenorol, byddai ganddynt gysylltiad sy'n peri rhagfarn yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet hwnnw ac ni allent archwilio'r penderfyniadau hynny yn rhan

o'r adolygiad, ac yn sgil hynny yr argymhellir nad yw aelodau Cabinet y weinyddiaeth flaenorol yn cael eu penodi i fod ar y Grŵp TaG).

- y Grŵp TaG yn penodi ei gadeirydd ei hun o blith ei aelodaeth. Bydd hefyd yn cytuno ar ei ffrydiau gwaith ei hun, amserlen ei gyfarfodydd, a hefyd a oes angen iddo gael cyngor neu gymorth arbenigol annibynnol.
- Bydd disgwyl i'r Grŵp TaG gynnal a chwblhau ei adolygiad o fewn cyfnod o 12 mis. Os daw i'r amlwg wrth i'r adolygiad fynd rhagddo y bydd angen mwy o amser er mwyn cynnal adolygiad trylwyr, gall y Grŵp TaG ofyn am estyniad i'w amserlen trwy adroddiad cynnydd un ai i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu neu'r Pwyllgor Craffu a'i sefydlodd.

4.6. Er mwyn hwyluso sefydlu Grŵp TaG ffurfiol i gynnal yr adolygiad, derbyn ei ganfyddiadau, a chyfathrebu ei gasgliadau i aelodaeth ehangach y Cyngor a thrigolion maes o law, mae angen penodi un o'r Pwyllgorau Craffu i oruchwylio'r broses. Argymhellodd y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu y dylid penodi'r Pwyllgor Craffu Perfformiad fel y pwyllgor dynodedig at y diben hwn. Nid oes disgwyl i'r Pwyllgor ei hun gynnal yr adolygiad, dim ond ei roi ar waith a derbyn ei adroddiad(au). Mae gofyn i'r Pwyllgor felly gytuno i'r cais a gweithredu fel y corff i adrodd yn ffurfiol wrtho yn rhan o'r adolygiad.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd adolygiad manwl o'r holl gamau oedd ynghlwm â chyflwyno'r Gwasanaeth newydd yn helpu i weld a oedd unrhyw gyfleoedd wedi'u colli neu fylchau yn ystod camau cynllunio, rheoli a/neu weithredu'r prosiect. Bydd hyn yn helpu i lywio prosiectau trawsnewid busnes neu wasanaeth yn y dyfodol gyda'r bwriad o sicrhau bod pobl yn cyfrif Cyngor Sir Ddinbych fel un sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n perfformio'n llwyddiannus.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd costau staffio'r tîm craffu a fydd yn gysylltiedig â'r adolygiad, lle bo modd, yn cael eu cadw o fewn cyllideb y Gwasanaethau Democrataidd. Ar gyfer costau ychwanegol,

mae ymrwymiad wedi'i wneud i ddarparu adnoddau ariannol i gaffael unrhyw gyngor neu gymorth arbenigol mae'r Grŵp TaG ei angen, yn ddibynnol ar ddadansoddiad ar sail tystiolaeth o werth am arian disgwylidig unrhyw gymorth.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y penderfyniad hwn. Yn rhan o'i adolygiad, bydd y Grŵp TaG yn archwilio'r Asesiadau o Effaith ar Les a luniwyd ac a adolygwyd wrth gynllunio, gweithredu a chyflwyno'r Gwasanaeth newydd.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi bod yn rhan fawr o lunio'r cylch gorchwyl arfaethedig, ac roedd cyfle i'r holl gynghorwyr sir ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfrannu at y cylch gorchwyl a'r darpar drefniadau i gynnal yr adolygiad yn ystod y gweithdy i holl aelodau'r Cyngor ym mis Tachwedd 2024.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Oherwydd arwyddocâd y prosiect hwn o newid strategol, a nifer y trigolion sydd wedi'u heffeithio ar hyd a lled y sir, mae'n bwysig bod y sefydliad yn dysgu o'r profiad hwn. Mae'r cynigion sydd yn yr adroddiad i ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes lle bo modd, wrth ystyried costau a manteision cyngor arbenigol i gefnogi'r Grŵp Tasg a Gorffen, yn briodol ac yn gymesur.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Cyflwyno'r Gwasanaeth newydd hwn, gan ei fod yn wasanaeth mae pob aelwyd yn y sir yn ei ddefnyddio, oedd y newid mwyaf i ddarpariaeth gwasanaeth mae'r Cyngor wedi'i wneud hyd yma. Mae hi felly yn hollbwysig bod unrhyw fylchau wrth gynllunio, rheoli a/neu gyflawni'r prosiect yn cael eu nodi, a bod gwersi'n cael eu dysgu gyda'r bwriad o liniaru unrhyw risgiau a allai godi wrth gynllunio prosiectau trawsnewid busnes/gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau o safon yn cael eu darparu i drigolion gan hefyd ddiogelu enw da'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Terms of Reference

Scrutiny Review of the Implementation of the new Waste and Recycling Scheme in Denbighshire

1. Introduction

The purpose of this review is to conduct a comprehensive assessment of the implementation of the new Waste and Recycling scheme in Denbighshire. This review will identify the key issues that affected the efficient and effective implementation. The review will seek to identify lessons that can be learned, in order to provide actionable recommendations to inform future transformational projects.

2. Objectives

Assess the planning and preparatory stages: Evaluate the initial planning & project management, stakeholder engagement, and readiness assessments.

Review the implementation process: Analyse the execution of any pilot studies, the roll-out, including logistics, communication, and resource allocation.

Identify key impediments: Determine the specific factors that hindered efficient and effective implementation.

Provide recommendations: Offer strategic and operational recommendations to inform the management of future transformational projects.

3. Scope of Work

The review will cover the following areas:

a) Assess Planning and Preparatory Stages

The effectiveness of the Council's project management arrangements and systems to assess risk management at project, Service, and Corporate levels.

Review the decisions made at key milestones of the planning and preparatory stages for the new system.

Review the effectiveness of the Council's governance of the project – to include both formal and informal scrutiny.

Assess the involvement of key stakeholders (e.g., local government, Welsh Government, residents and trade unions) in the planning phase.

Review the effectiveness of any feasibility studies or planning assumptions relied upon in the implementation, and whether due regard was given throughout the

service's development and rollout stages to equalities matters and the potential impact of the new service's introduction on residents with protected characteristics.

Review the effectiveness of external advice and professional consultancy support provided.

Evaluate the allocation and readiness of resources (financial, human, vehicles and general infrastructure).

